



Dreftadaeth

Mae Dyffryn Clywedog a'r safleoedd cyfagos yn cynnwys adeiladau a threftadaeth ddiwydiannol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys: Chwarel y Mwynglawdd, Pyllau Plwm y Mwynglawdd, Melin y Nant, Gwaith Haearn y Bers a Melin y Brenin. Mae amrywiaeth o gynefinioedd gwerthfawr yn y dyffryn hefyd, yn eu plith AHNE Mynydd y Mwynglawdd, Chwarel y Mwynglawdd, coetir hynafol yng Nghoed Plas Power, Parc Gwledig Erddig ac afon Clywedog sy'n rhedeg drwy'r dyffryn.

Gweledigaeth ein prosiect partneriaeth yw adfer a gwella treftadaeth Dyffryn Clywedog a thrawsnewid yr ardal yn atyniad ac adnodd llewyrchus, cydnerth, bywiog a chynhwysol; lle i brofi hanes a natur boed hynni drwy eu mwynhau'n dawel bach, neu drwy gymryd rhan mewn rhaglen amrywiol o weithgareddau fydd yn apelio'n eang, er budd pobl o'r ardal leol a thu hwnt.

Mae'r dyffryn naw milltir o hyd yn Wrecsam yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion diwydiannol a threftadaeth naturiol, wedi'u cysylltu gan Lwybr Dyffryn Clywedog, sy'n dystiolaeth i'r cenedlaethau o bobl sydd wedi byw a gweithio yn yr ardal.

Bydd y prosiect yn cynnwys:

- Adfer a thrawsnewid safleoedd treftadaeth yn ffisegol yn atyniadau ymwelwyr cydnerth, ffyniannus a chynaliadwy sy'n cefnogi ei gilydd.
- Gwella mynediad a darparu cyfleusterau newydd ar hyd y llwybr ac yn y safleoedd treftadaeth er mwyn helpu mwy o bobl i'w defnyddio a'u mwynhau.
- Hyfforddiant treftadaeth a sgiliau cadwraeth, cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith i bobl o bob gallu.
- Rhaglen ddigwyddiadau amrywiol ledled y dyffryn – yn ymneud â natur a hanes, yn ogystal â digwyddiadau nad ydynt yn draddodiadol er mwyn denu cynulleidfaedd newydd.
- Gwaith dehongli ledled y dyffryn ac ar gyfer atyniadau penodol.
- Rhagleni addysg.
- Cofnodi hanes yn seiliedig ar brofiadau ac atgofion.
- Hwyluso trafnidiaeth gynaliadwy.

Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar lesiant, sgiliau, cynhwysiant, treftadaeth leol, a'r economi leol yn y pen draw.

Heritage

The Valley and neighbouring sites include buildings and industrial heritage of national importance. These include Minera Quarry, Minera Lead Mines, Nant Mill, Bersham Iron Works and King's Mill. The valley also contains a range of valuable habitats including Minera Mountain AONB, Minera Quarry, ancient woodland at Plas Power Wood, Erddig Country Park and the River Clywedog which the valley follows.


Our partnership project has a vision to restore and enhance the heritage of the Clywedog Valley to transform it into a thriving, resilient, vibrant and inclusive cultural attraction and resource; a place to experience history and nature through both quiet enjoyment and a diverse programme of events with wide appeal, benefiting people both locally and from further afield.

This nine-mile valley in Wrexham encompasses a range of industrial and natural heritage features, connected by the Clywedog Valley Trail, that are testament to the generations of people who have lived and worked in the area.

The project will include:

- Physical restoration and transformation of heritage sites into resilient, thriving and sustainable attractions which support each other.
- Access improvements and new facilities for the trail and the heritage sites to increase inclusion.
- Heritage and conservation skills training, volunteering and work experience opportunities for all abilities.
- A diverse valley-wide events programme – nature and history, as well as non-traditional events to draw in new audiences.
- Valley-wide and attraction-specific interpretation.
- Education programmes.
- Experience & memory based history recording.
- Facilitating sustainable transport.

This will ultimately have positive lasting impacts on wellbeing, skills, inclusion, local heritage, and the local economy.



Funded by
UK Government



www.groundworknorthwales.org.uk